# → Canllaw Mynediad

## Hygyrchedd Olwynion

### Mynedfa

Mae gris bychan tua 4 modfedd (10cm) o uchder i fynd i mewn i'r adeilad. Mae ramp cludadwy ar gael y gallwn ei osod cyn eich ymweliad neu pan fyddwch yn cyrraedd. Os oes angen cymorth arnoch, cnociwch y drws, neu gwasgwch y gloch islaw'r handlen, a bydd aelod staff yn dod i'ch helpu.

### Llawr Gwaelod

Mae'r holl lawr gwaelod yn gwbl hygyrch i olwynion.

Ar y llawr gwaelod mae'r Cyntedd, Siop Grefftau, Caffi, toiledau a 2 Oriel. Mae i'r ddesg dderbyn ran is hygyrch.

### Llawr Cyntaf

Ar y llawr cyntaf mae'r Ystafell Ddysgu, Ystafell Selway ac Ystafell Zobole. Yn anffodus, nid yw'r ystafelloedd hyn yn hygyrch i olwynion ar hyn o bryd.

Os hoffech fwcio lle mewn gweithgaredd sy'n digwydd yn ein Hystafell Ddysgu ond rydych yn methu cyrchu'r llawr cyntaf, cysylltwch â ni dros y ffôn, drwy e-bost, neu galwch heibio, ac efallai gallwn ei symud i un o'n mannau i lawr y grisiau. Fodd bynnag, oherwydd natur rhai arddangosfeydd a gweithdai nid yw hyn bob amser yn bosibl – ond fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

## Parc Bygis

Nid oes gennym barc bygis, a does dim llawer o le, ond gofynnwch os hoffech adael bygis wrth ochr y ddesg dderbyn.

## Anifeiliaid Cymorth

Mae croeso i gŵn tywys a chŵn cymorth cofrestredig ond rhaid eu cadw ar dennyn bob amser.

## Cyfathrebu

### Dolen Sain

Mae gennym ddwy ddolen sain: mae un ger y ddesg dderbyn, ac ar hyn o bryd mae un gludadwy yn yr Ystafell Ddysgu.

### Iaith

Mae sawl aelod staff yn ddysgwyr Cymraeg gyda sgiliau llafar Cymraeg lefel mynediad, ac mae gan un aelod staff sgiliau lefel mynediad mewn Iaith Arwyddion Prydain. Mae nifer o aelodau staff wedi cael hyfforddiant ffrindiau dementia hefyd.

Mae ein harwyddion, labeli a'n gwybodaeth drwy'r holl adeilad yn ddwyieithog Cymraeg a Saesneg.

**Print bras**

Mae labeli a dehongliadau mewn print bras ar gael ar gais wrth y ddesg dderbyn.

Mae bwydlenni mewn print bras ar gael ar gais wrth gownter y Caffi.

Mae cloc digidol ffont mawr yn yr Ystafell Ddysgu.

## Taliadau

Derbynnir taliadau cerdyn ac arian parod wrth y ddesg dderbyn a chownter y Caffi.

## Synhwyraidd

Fel rheol, mae Llantarnam Grange yn amgylchedd tawel a digyffro.

Gall celfwaith sain neu sainluniau fod yn rhan o rai arddangosfeydd, a gall y rhain fod yn swnllyd weithiau. Mae gennym nifer o grwpiau rheolaidd, ystafelloedd wedi hurio a gweithdai ysgol sy'n cael eu cynnal i fyny'r grisiau o bryd i'w gilydd. Gall y sesiynau hyn hefyd fod yn swnllyd weithiau.

Gall goleuadau yn y mannau arddangos fod yn oleuach neu'n dywyllach nag yng ngweddill yr adeilad, yn dibynnu ar y gwaith ac ar ddewis yr artist sy'n arddangos.

Weithiau byddwch yn clywed aroglau bwyd o gwmpas yr adeilad, mae hyn am fod yr holl fwyd yn cael ei goginio ar y safle.

## Seddau

Mae nifer o seddau drwy'r holl adeilad.

Mae croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r bwrdd a'r cadeiriau yn Oriel 2 os ydynt ar gael.

Yn union y tu mewn i'r drws ffrynt mae gennym fainc fechan.

Mae'r Caffi yn cynnwys seddau dan do ynghyd â seddau tu allan pan fod y tywydd yn gynhesach.

## Cymorth Cyntaf

Mae blychau Cymorth Cyntaf yn yr Ystafell Ddysgu ac yn y Caffi, ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Mae gennym dri chynorthwyydd cyntaf iechyd meddwl.

## Toiledau

Mae'r toiledau i lawr coridor rhwng y Siop Grefftau a'r Cyntedd.

Mae'r toiledau cyntaf yn cynnwys 3 troethle ac un ciwbicl.

Mae'r toiledau nesaf yn cynnwys 2 giwbicl, eitemau mislif ac un bin gwaredu eitemau mislif.

Mae'r toiled ar ddiwedd y coridor yn giwbicl hygyrch rhywedd-niwtral, gyda botwm gwthio i'w agor ar y wal ar y chwith. Bydd y drws yn cau'n awtomatig ar ôl cyfnod byr.

Mae'r toiled hygyrch yn cynnwys canllawiau cymorth, silff bag colostomi, larwm argyfwng cortyn tynnu, cyfleusterau newid babanod, poti, eitemau mislif a bin gwaredu eitemau mislif.

Mae i bob toiled loriau gwrthlithro a goleuadau awtomatig.

Mae toiled Changing Places gerllaw, yn uwchfarchnad Asda yng nghanol tref Cwmbrân.

## Caffi

### Alergeddau neu Anghenion Deietegol

Os oes gennych unrhyw alergeddau neu ofynion dietegol, siaradwch â staff y caffi pan fyddwch yn archebu. Mae pob aelod o staff y caffi wedi derbyn hyfforddiant ar alergenau.

Mae opsiynau fegan a llysieuol wedi'u labelu ar y fwydlen ac mae gwahanol fathau o laeth planhigion ar gael.

Mae'r peiriant espresso yn cael ei lanhau rhwng pob coffi a defnyddir jygiau cod lliw gwahanol ar gyfer pob math o laeth. Defnyddir offer cod lliw hefyd yn y gegin ar gyfer alergeddau.

Mae eitemau glwten isel ar gael; fodd bynnag, ni allwn warantu 100% heb glwten, ond mae'r tîm yn cymryd pob rhagofal i atal croeshalogi.

### Man Ail-lenwi Dŵr

Gallwch helpu eich hun i ddyfrio wrth y cownter, ac os ydych am lenwi eich potel ddŵr, gofynnwch i aelod o staff y caffi.

## Person Cyswllt

Os hoffech gysylltu â ni cyn eich ymweliad neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni drwy e-bost yn **hello@llantarnamgrange.com** neu ffoniwch **01633 483321.**